Faint o swyddogion cymorth cyntaf sydd eu hangen?

Y rheoliadau perthnasol yw Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf) 1981. Mae'r canllaw hwn i'r rheoliadau yn nodi'r gwahaniaeth rhwng 'swyddog cymorth cyntaf' a 'pherson penodedig':

Mewn unrhyw gwmni, bydd nifer y swyddogion cymorth cyntaf a'r math o swyddogion cymorth cyntaf yn seiliedig ar asesiad. Wrth asesu anghenion, mae angen i gyflogwyr ystyried:

- peryglon a risgiau yn y gweithle;
- maint y sefydliad;
- hanes damweiniau'r sefydliad;
- natur a dosbarthiad y gweithlu;
- pa mor bell y mae'r safle oddi wrth wasanaethau meddygol brys;
- anghenion gweithwyr sy'n teithio, gweithwyr o bell a gweithwyr unigol
- cyflogeion sy'n gweithio ar safleoedd wedi'u rhannu neu amlfeddiannaeth;
- gwyliau blynyddol ac absenoldebau eraill swyddogion cymorth cyntaf a phersonau penodedig.

Er nad yw'r rheoliadau yn rhoi nifer penodol o swyddogion, mae'r canllaw yn awgrymu niferoedd o swyddogion cymorth cyntaf:

Categori'r risg	**Nifer sy'n gyflogedig mewn unrhyw leoliad**	**Nifer y swyddogion cymorth cyntaf a argymhellir**
Risg isel e.e. siopau, swyddfeydd, llyfrgelloedd. Llai na 50 O leiaf un person penodedig	Llai na 50	O leiaf un person penodedig
-	50 – 100	O leiaf un swyddog cymorth cyntaf
-	Mwy na 100	Un swyddog cymorth cyntaf fesul pob 100 a gyflogir
Risg ganolig e.e. peirianneg ysgafn a gwaith cydosod, prosesu bwyd, storfeydd Llai na 20 O leiaf un person penodedig	Llai na 20	O leiaf un person penodedig
-	20-100	O leiaf un swyddog cymorth cyntaf fesul pob 50 a gyflogir (neu ran o hynny)
-	Mwy na 100	Un swyddog cymorth cyntaf fesul pob 100 a gyflogir
Risg uwch e.e. adeiladu, lladd-dai,	Llai na 5	O leiaf un person

gweithgynhyrchu cemegol, gwaith helaeth gyda pheiriannau peryglus neu offer miniog Llai na phump O leiaf un person penodedig		penodedig
-	5-50	O leiaf un swyddog cymorth cyntaf
-	Mwy na 50	Un swyddog cymorth cyntaf fesul pob 50 a gyflogir

Awgrymiadau yw'r manylion uchod yn unig - nid ydynt yn derfynol nac yn ofyniad cyfreithiol. Eich cyfrifoldeb chi yw asesu eich anghenion cymorth cyntaf yng ngoleuni eich amgylchiadau arbennig.

Cyhoeddiadau perthnasol

- L74, First aid at work, (ISBN 0717610500 – ar gael gan HSE Books)
- **First aid at work – taflen am ddim** [193kb]